**Rhif: WG39288**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Gweithredu rheoliadau dirprwyedig yr UE ar fwyd ar gyfer grwpiau penodol

**Ymgynghoriad ar offeryn statudol drafft i weithredu dau o reoliadau dirprwyedig yr UE ar fwydydd at ddibenion meddygol arbennig a fformiwla babanod a fformiwla ddilynol yng Nghymru.**

**Ionawr 2021**

OGL © Hawlfraint y Goron

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng 8 Tachwedd a 6 Rhagfyr 2019.

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Manylion cysylltu

Y Gangen Iach ac Egnïol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ E-bost: lifestyles@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir yr adroddiad cryno hwn a chopïau o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Dogfennau Cysylltiedig

Dolen i'r ddogfen ymgynghori:

**https://llyw.cymru/bwydydd-ddibenion-meddygol-arbennig-fformiwla-babanod-fformiwla-ddilynol**

## Cynnwys

**Cyflwyniad 4**
**Crynodeb o'r Ymatebion 5**

**Cyflwyniad**

Ceisiodd Llywodraeth Cymru farn ynglŷn â chynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth ddomestig, ar ffurf Offeryn Statudol (OS) diwygio, fel y gellir gorfodi elfennau o Reoliad Dirprwyedig yr UE 2016/128 ar fwyd at ddibenion meddygol arbennig a Rheoliad Dirprwyedig yr UE 2016/127 ar fformiwla babanod a fformiwla ddilynol yng Nghymru. Gofynnwyd i randdeiliaid am eu barn ar briodoldeb y dull arfaethedig o orfodi, a oedd yn seiliedig ar Hysbysiadau Gwella.

Gofynnwyd i randdeiliaid gyflwyno eu sylwadau drwy ffurflen ar-lein neu drwy e-bost neu drwy'r post.

## Crynodeb o’r ymatebion

Cafwyd 5 ymateb i'r ymgynghoriad hwn, 2 gan aelodau o'r cyhoedd (yr oeddynt am aros yn ddienw), un gan weithiwr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) (a oedd am aros yn ddienw), un gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac un gan Breast Feeding Law Group UK a ymatebodd hefyd i ymgyngoriadau cyfatebol a gynhaliwyd yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Ceir crynodeb isod o'r ymatebion a roddwyd i bob cwestiwn;

### Cwestiynau'r ddogfen ymgynghori

1. **Ydych chi’n cytuno mai’r cam ffurfiol cyntaf am dorri darpariaethau Rheoliad Dirprwyedig (UE) 2016/128 ar fwyd at ddibenion meddygol arbennig ar gyfer babanod fyddai Hysbysiad Gwella sy’n cyd-fynd â’r darpariaethau gorfodi ar gyfer Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016 (gorfodi Rheoliad UE 609/2013) a Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Diwygio) (Cymru) 2019 (sy’n cynnwys gorfodi’r darpariaethau ar gyfer Bwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig heblaw am Fwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig ar gyfer babanod)?**

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd pawb yn cytuno mai Hysbysiad Gwella ddylai fod y cam ffurfiol cyntaf am dorri darpariaethau. Fodd bynnag, mynegwyd pryder gan rai y gellid ystyried nad oedd y cam cyntaf anffurfiol yn ddigon llawdrwm ac, yn sgil diffyg cadw cofnodion o gam o'r fath, byddai’n anodd monitro achosion o dorri amodau.

2. **Ydych chi’n cytuno mai’r cam ffurfiol cyntaf am dorri darpariaethau Rheoliad Dirprwyedig (UE) 2016/127 ar fformiwla babanod a fformiwla ddilynol fyddai Hysbysiad Gwella sy’n cyd-fynd â’r darpariaethau gorfodi ar gyfer Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016 a Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Diwygio) (Cymru) 2019?**

   [Noder na fyddai'r gyfundrefn orfodi arfaethedig yn atal erlyniad troseddol fel cam cyntaf pe bai achos o dorri darpariaeth yn gyfystyr â throsedd o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (ee pe bai'r bwyd yn cael ei wneud yn niweidiol i iechyd yn groes i adran 7). O dan yr amgylchiadau hynny, ni fyddai'r swyddog awdurdodedig yn erlyn am dorri’r darpariaethau ar gyfer Bwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig na'r rheoliadau Fformiwla Babanod a Fformiwla Ddilynol ond am dorri Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Yn ogystal,

byddai methu â chydymffurfio â Hysbysiad Gwella a gyflwynir o dan y Rheoliadau yn arwain at gosbau troseddol.]

Fel gyda’r ymatebion i'r cwestiwn cyntaf, roedd yr ymatebwyr hynny a wnaeth sylwadau ar y cwestiwn hwn yn cytuno mai Hysbysiad Gwella ddylai fod y cam ffurfiol cyntaf ar gyfer torri’r rheoliadau. Fodd bynnag, mynegwyd pryder gan rai y gellid ystyried nad oedd y cam cyntaf anffurfiol yn ddigon llawdrwm ac, yn sgil diffyg cadw cofnodion o gam o'r fath, byddai’n anodd monitro achosion o dorri amodau.

3. **Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y bydd y rheoliadau hyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.**

   [Beth fyddai’r effeithiau yn eich tyb chi? Sut y gellid cynyddu’r effeithiau positif a lliniaru’r effeithiau negyddol?]

O'r rhai a wnaeth sylwadau ar y cwestiwn hwn, nid oedd yr un ohonynt yn teimlo y byddai'r rheoliadau hyn yn effeithio ar y ddarpariaeth Gymraeg.

4. **Eglurwch hefyd sut rydych chi’n credu y gallai’r rheoliadau arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.**

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar y cwestiwn hwn.

5. **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i’r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:**

Dywedodd tri ymatebydd na ddylid darparu cynhyrchion fformiwla babanod y brandiau mawr i famau newydd mewn wardiau mamolaeth.

## Y camau nesaf

Ystyriodd swyddogion ledled y DU yr ymatebion a gafwyd a chytunwyd oherwydd y farchnad arbenigol, y sylfaen cyflenwyr bach a’r ddeddfwriaeth lywodraethol sydd wedi’i diffinio’n dda mewn perthynas â chyfansoddiad/labelu’r cynnyrch dan sylw, mai cyfundrefn hysbysiadau gwella oedd y dull mwyaf priodol o hyd. At hynny, lle y mae swyddogion gorfodi yn nodi niwed posibl i iechyd neu drosedd fwriadol mewn perthynas â bwyd, mae dulliau gorfodi ganddynt a nodwyd o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Deddf Atal Twyll

2006, a bydd y dulliau gorfodi hyn yn parhau. Yn ogystal â hynny, mae methu â chydymffurfio â Hysbysiad Gwella yn drosedd ynddo'i hun. Mae hyn yn gyson â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru).

Ni wnaed unrhyw ddiwygiadau i'r OSau hyn (nac unrhyw OSau domestig y DU cyfatebol) o ganlyniad i'r ymgynghoriad.